Papur y Bwrdd

10 Chwefror 2015

Teitl y Papur:	**Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau**
Cyfeirnod y Papur:	CNC B B 8.15
Paratowyd y Papur gan:	**Rhian Jardine**: Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio **Gillian Bilsborough**: Cynghorydd Addysg, Dysgu a Chyfranogiad

Pwrpas y Papur:	**Cyflwyno'r dull Addysg a Sgiliau i CNC i gyflawni ymrwymiadau ein Cynllun Corfforaethol.**
Argymhelliad:	**Cymeradwyo**'r Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau, y Cynllun Gweithredu cysylltiedig a'r Cynllun Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) dangosol.
Angen Penderfyniad:	Oes

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae effeithiau amgylcheddol yn sgil gweithgareddau dysgu yn cynnwys sawl effaith gadarnhaol. Bydd gweithgareddau dysgu sy'n canolbwyntio ar ddull Rheoli Adnoddau Dynol yn cysylltu pobl ifanc â'u hamgylchedd naturiol ac yn creu unigolion gofalgar sy'n gwerthfawrogi eu hamgylchedd naturiol mewn ffordd a fydd yn helpu i lywio eu penderfyniadau wrth iddynt ddod yn oedolion a gwneud dewisiadau gyrfa. **Effaith ar yr Economi**: Nod allweddol y Cynllun Galluogi hwn yw sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd cyflogaeth. Drwy gyflwyno egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol i leoliadau dysgu, ein gobaith yw cael effaith gadarnhaol ar ddewisiadau gyrfa'r dyfodol, cyflogadwyedd a'r sgiliau i ddefnyddio dull Rheoli Adnoddau Naturiol mewn sbectrwm eang o sectorau ledled Cymru. **Effaith ar y Gymuned**: Mae lleoliadau dysgu yng nghalon y gymuned yn aml. Nod y Cynllun Galluogi hwn yw datblygu pobl ifanc ystyriol a

	gofalgar a fydd yn dylanwadu ac yn cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei reoli er budd pawb. **Effaith ar Wybodaeth**: Mae'n rhaid i'n gwaith o gyflawni'r Cynllun Galluogi hwn a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth a gwerthusiad cadarn. Byddwn hefyd yn datblygu ein gwybodaeth fewnol drwy hyfforddi a pharatoi staff ledled y busnes ar y ffordd orau o ddeall a chyfathrebu dull Rheoli Adnoddau Naturiol. Bydd hefyd yn ein galluogi i reoli ein hadnodd data mewnol fel y gallwn rannu hwn yn briodol gyda dysgwyr.

Pwnc

1. Yn ein Cynllun Corfforaethol rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i bobl fwynhau'r amgylchedd, dysgu ynddo, a dysgu amdano, drwy ddarparu cyfleoedd dysgu a sgiliau. Rydym wedi adolygu ein hymagwedd at addysg a sut mae sicrhau ei bod yn addas ar gyfer cyflawni ein pwrpas ac ymrwymiadau ein Cynllun Corfforaethol. Dyma'r agweddau allweddol i'r Bwrdd eu hystyried:

   - Mae Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau effeithiol yn hanfodol i'n gallu i ddylanwadu ar, ac ymgysylltu â'r sectorau dysgu ledled Cymru drwy eu cefnogi i gyflawni'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol.

   - Mae yna gysylltiad clir rhwng amcanion y Cynllun Galluogi hwn a chynlluniau galluogi 'ymgysylltu â phobl' eraill sydd wedi'u cymeradwyo neu'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn cael eu sefydlu'n gynnar yn y broses gyflawni a bod y cynlluniau galluogi yn ategu ei gilydd.

   - Drwy weithredu'r Cynllun Galluogi hwn, mae CNC yn ymrwymo i newid cyfeiriad y gwaith hwn gan ganolbwyntio ar sut y byddwn ni'n cynorthwyo, yn cefnogi a hwyluso eraill i ddarparu a chyflawni ein canlyniadau drwy rannu ein harbenigedd, cyfleusterau ac asedau. Mae hefyd yn blaenoriaethu ein gwaith o ddylanwadu'n strategol ar y sectorau addysg a sgiliau ffurfiol yng Nghymru.

Crynodeb

2. Mae'r Cynllun Galluogi hwn yn cyflawni pedair prif elfen:

   Dylanwadu:
   Byddwn yn dylanwadu ar fwy o bolisïau cenedlaethol a lleol, arferion a phenderfyniadau er mwyn cyflawni'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol.

   Dysgu Ffurfiol:
   Bydd mwy o ddysgwyr mewn addysg ffurfiol yn newid eu hymddygiad yn sgil dysgu am yr amgylchedd naturiol ac ynddo a dysgu am bwysigrwydd y dull Rheoli Adnoddau Naturiol, gan barhau i ddefnyddio'r dull hwn yn y dyfodol.

   Datblygu sgiliau:
   Bydd mwy o ddysgwyr yn ennill y sgiliau sydd eu hangen i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy eu gwaith. Bydd mwy o ddysgwyr yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith yn y sector Rheoli Adnoddau Naturiol ac yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

   Adnoddau a data:
   Bydd mwy o ddysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol yn gallu cael gafael yn well a gwneud defnydd llawn o gyfleusterau o safon uchel gan ddangos

egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol a chael gafael ar ddata a gwybodaeth am y dull hwn.

3. Byddwn yn monitro cynnydd yr elfennau hyn drwy ddull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA).

4. System reoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yw RBA. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni ddefnyddio'r dull hwn ym mhob rhan o'n sefydliad.

Cefndir

5. Bydd y Cynllun Galluogi hwn yn hyfforddi a pharatoi ein gwasanaeth Addysg a Sgiliau cyfredol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gwaith Rheoli Adnoddau Naturiol ledled y busnes.

6. Bydd y Cynllun Galluogi'n arwain ein hadnodd addysg a sgiliau er mwyn i ni gynnig gwasanaeth dylanwadol ac integredig gan ddefnyddio sgiliau a chymorth y staff a'r arbenigwyr angenrheidiol ledled y sefydliad. Bydd ein swyddogaeth i addysgu yn cael ei chynnwys yn ein gweithgareddau darparu craidd. Bydd ein swyddogaeth i ddylanwadu yn fwy strategol.

7. Bydd y Cynllun Galluogi hwn yn ein galluogi i nodi, rheoli a darparu data ac adnoddau priodol sydd mewn fformatau amrywiol ledled y busnes ar hyn o bryd.

8. Bydd y Cynllun Galluogi hwn yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer adolygu ein gwasanaeth cyfredol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n dull newydd effeithlon, effeithiol a hygyrch.

9. Datblygwyd y Cynllun Galluogi, y Cynllun Gweithredu a'r dull RBA gyda chymorth Is-grwpiau Cymunedau a Gwybodaeth y Bwrdd.

Camau Nesaf

10. Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo hynny, byddwn yn rhannu'r Cynllun Galluogi gyda chydweithwyr ledled CNC, ein partneriaid a rhwydweithiau perthnasol. Ch4.

11. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ym mhob Cyfarwyddiaeth i sefydlu'r Cynllun Galluogi ac yn rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith drwy Gynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau. Ch4.

12. Byddwn yn dechrau adolygu'r trefniadau sefydliadol cyfredol, yn unol â'r egwyddorion rheoli newid, ac yn cyflwyno'r strwythurau angenrheidiol i gyflawni'r Cynllun Galluogi. Ch4 i Ch2.

Risgiau

13. Os bydd y cyfeiriad ar gyfer addysg a sgiliau a nodir yn y Cynllun Galluogi hwn yn cael ei wrthod, ni fydd y sefydliad yn gallu diweddaru a darparu gwasanaeth craidd a fydd yn dylanwadu ar genedlaethau'r dyfodol.

14. Mae'r Cynllun Galluogi yn dibynnu ar ymrwymiad llawn y Tîm Gweithredol. Bydd methu sicrhau bod y cyfeiriad a roddir yn y Cynllun Galluogi hwn yn cael ei adlewyrchu yng Nghynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau yn llesteirio ein cynnydd gyda'r sector hwn.

15. Er mwyn gallu cyflawni'r Cynllun Galluogi hwn yn llwyddiannus mae angen tîm profiadol bach canolog sy'n cael ei gefnogi ledled y busnes gan staff medrus ac arbenigol sy'n gyfrifol am ddarparu ein gweithgareddau craidd a chamau gweithredu a nodwyd.

Goblygiadau Ariannol

16. Er mwyn sicrhau bod ein costau gwasanaeth yn effeithiol, mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys gofyniad i adolygu gwasanaethau a gwariant cyfredol ac ystyried y posibilrwydd o godi tâl am ein gwasanaethau. Byddai unrhyw daliadau o'r fath yn cyd-fynd â pholisïau codi tâl Llywodraeth Cymru.

17. Mae'r Bwrdd wedi datgan bod y maes gwaith hwn angen darparu mwy am lai a dyma pam mae angen adolygu ein dull strategol a'n model gweithredu cyfredol.

18. Mae'r trefniadau cyfredol yn costio ychydig o dan £1 miliwn a gwaith tîm ymroddedig o weithwyr addysg proffesiynol.

Cyfathrebu

19. Bydd yr holl gyfathrebu a wneir gyda chydweithwyr, partneriaid a rhwydweithiau yn cydymffurfio ag argymhellion ein Strategaeth Gyfathrebu a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r holl ddata ac adnoddau sy'n cael eu darparu'n fewnol ac yn gyhoeddus i sicrhau bod ein deunyddiau'n cyd-fynd ag arddull a fformat ein brand.

20. Rydym wedi datblygu'r Cynllun Galluogi gan ddefnyddio mewnbwn gan staff a phartneriaid allanol fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

21. Mae gan CNC rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Cynllun Galluogi hwn wedi'i werthuso o dan Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb CNC. Gweler Atodiad 4.

Mynegai i'r Atodiadau

22. Atodiad 1 – Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau 2015-2020

23. Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu Addysg a Sgiliau 2015-2020

24. Atodiad 3 – Cynllun Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau Addysg a Sgiliau 2015-2020

25. Atodiad 4 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb